Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Syr John Rhys

**Ponterwyd**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3JX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Syr John Rhys

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Syr John Rhys |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 22 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 19 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 33.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 23% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2009 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/04/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Syr John Rhys yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy’n dathlu diwylliant Cymru, cwrteisi a pharch, a chyflawniad disgyblion, yn arbennig o dda. Mae’r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy’n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i ddarparu ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu’n gryf ar agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at ei gilydd ac at eraill. Mae’r cydweithio strategol sy’n digwydd gyda dwy ysgol gyfagos sydd dan ofal y pennaeth, yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion.

Mae staff yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau chwarae a dysgu ysgogol i’r disgyblion. Maent yn darparu cwricwlwm eang sy’n berthnasol i ddiddordebau’r disgyblion, gan gynnwys astudio hanes a daearyddiaeth ardal yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion at eu hardal leol yn amlwg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llafar, rhifedd a digidol sy’n briodol i’w hoedrannau a’u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen Saesneg yn fedrus, gan gyfrannu’n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion yn datblygu’n ddigon cadarn, yn enwedig eu gallu i ddarllen ar goedd a thrafod testunau’n hyderus.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser gan ystyried targedau eu rhaglenni unigol a’u cyflawniadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi’r pennaeth a’r staff yn fwriadus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau a blaenoriaethau gwella’r ysgol, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn gadarn. Mae’r rhieni’n  falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol fach mor gefnogol sy’n gwbl ganolog i gymuned wledig ardal Ponterwyd.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sydd tua'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad. Er hyn, nid yw bron bob un o'r disgyblion yn deall nac yn siarad Cymraeg ar fynediad i'r ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn, sy'n cynnwys disgyblion sydd ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O oedran ifanc, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i barchu cyfraniadau ei gilydd, er enghraifft wrth rannu syniadau yn ystod sesiynau dysgu a chydweithio yn ystod gweithgareddau grŵp. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac ymateb yn addas i gwestiynau a chyfarwyddiadau staff. Maent yn dechrau ehangu eu geirfa yn briodol i sgwrsio am eu profiadau dysgu, gan ddefnyddio patrymau brawddegau syml yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth drafod canlyniadau'r arbrawf hydoddi iâ. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir i esbonio ac ymateb i gwestiynau ymestynnol. Er hyn, ychydig o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg i sgwrsio yn eu grwpiau dysgu yn ddigymell.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod eu llythrennau a rhifau sylfaenol yn briodol ac yn dangos mwynhad wrth eu dysgu. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau gwrando ar straeon, a llwyddant eu hailadrodd yn frwdfrydig i'w ffrindiau ac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn darllen yn rhugl mewn cyd-destunau amrywiol yn Saesneg. Maent yn trafod testun yn hyderus gan adalw'r hyn y maent wedi ei ddarllen a nodi'r prif bwyntiau yn aeddfed. Fodd bynnag, ychydig o'r disgyblion sy'n llwyddo i ddarllen a thrafod testunau Cymraeg i'r un safon.

Ar y cyfan, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau arbrofi â gwneud marciau yn annibynnol. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu brawddegau syml yn lled annibynnol, er enghraifft wrth ddewis ansoddeiriau'n ofalus i ddisgrifio'r pengwin. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn nifer o ffurfiau ar draws y meysydd dysgu yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o fam arbennig a chyfansoddi sgript ar gyfer rhaglen radio. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu Cymraeg lleiafrif y disgyblion yn datblygu i'r un safon â'u medrau ysgrifennu Saesneg.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n bwrpasol o fewn eu profiadau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod siapiau 2D a 3D syml yn briodol ac yn dechrau defnyddio eu medrau rhif wrth ddatrys problemau mathemategol syml, er enghraifft wrth fesur gwrthrychau o amgylch yr ysgol gan ddefnyddio unedau safonol. Mae gan lawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 afael da ar werth rhifau 2 ddigid. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin a deall gwerth arian yn ymarferol wrth chwarae a dysgu yn siop ffrwythau'r dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddadansoddi graff bar am benblwyddi a defnyddio graff llinell i ddarganfod y cysylltiad rhwng taldra person a chylfymdra rhedeg. Ar frig yr ysgol, mae gan lawer

ddealltwriaeth dda o gysyniadau rhifedd blaenorol. Llwyddant i ymateb i gwestiynau rhifyddeg pen a datrys problemau yn hyderus.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen ddigidol i'w cefnogi i ddysgu llythrennau a rhifau yn rhyngweithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau prosesu geiriau yn effeithiol i adrodd stori'r pengwin. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus i gefnogi ymchwil annibynnol, ac ysgrifennu, golygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau'n effeithiol wrth greu a chyflwyno fideo i esbonio sut i gadw'n ddiogel wrth ddringo mynyddoedd. Maent yn datblygu eu gallu i drin data yn briodol mewn taenlenni ac yn dechrau datblygu eu medrau codio i reoli teclyn rhaglenadwy.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol yn yr ardal allanol, gan gynnwys cymryd risg tra'n dringo ac adeiladu yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol fel mynychu sesiynau nofio rheolaidd ac elwa o brofiadau ysgogol yn yr awyr agored. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau dawnsio creadigol yn fedrus yng nghystadleuaeth yr Urdd. Mae llawer yn mwynhau mynychu'r clwb chwaraeon wythnosol sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hagweddau at bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae eu mwynhad a'u balchder yn y maes yn amlwg, er enghraifft wrth berfformio'n hyderus yn y sioe Nadolig. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau arlunio trwy efelychu gwaith arlunydd enwog o Ffrainc, gan ddatblygu eu gallu i amrywio lliw a gwead yn gelfydd. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau'n effeithiol i gynhyrchu gwaith celf deniadol, er enghraifft wrth greu gwisg ffasiynol a gemwaith ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn ystyriol iawn o'u cyfoedion, ac yn ymateb yn synhwyrol pan fydd disgyblion yn wynebu heriau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio'n naturiol gyda'u ffrindiau a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Maent yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn pryderu am unrhyw agwedd o'u bywydau. Mae llawer yn mynegi eu teimladau'n hyderus ac yn fodlon rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae bron bob un yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod eu sesiynau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn mwynhau profiadau fel taith gerdded i gopa mynydd Pumlumon a chymryd rhan yn y sesiynau corfforol penodol yn wythnosol sy'n cefnogi eu lles yn effeithiol. Mae digysblion yn ymwybodol o, ac yn deall, pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, gan gynnwys darparu byrbrydau iachus ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Yn ystod gweithgareddau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu. Maent yn arddangos annibyniaeth gynyddol o'r cychwyn cyntaf yn nosbarth y disgyblion ieuengaf. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu hunanhyder, ac yn llwyddo i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth chwarae, ac wrth ddatblygu eu medrau gydag offer yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd dysgu y tu allan. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn dyfalbarhau'n ddygn wrth fesur a thorri rhubanau yn yr ardal allanol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn dyfalbarhau'n  aeddfed, gan gynnig cymorth i'w ffrindiau wrth gyflawni eu tasgau. Maent yn barod i ofyn am gymorth gan aelodau'r grŵp ac aelodau o staff, yn ôl yr angen.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cael eu herio mewn gweithgareddau annibynnol, ac yn arddangos dyfalbarhad cynyddol wrth geisio cyflawni eu tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gweithio'n ddiwyd wrth gynllunio ac adeiladu iglw yn ardal heriau'r dosbarth. Mae llawer yn dangos brwdfrydedd yn ystod sesiynau dysgu, ac yn canolbwyntio'n effeithiol am gyfnodau estynedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, ac yn dangos agwedd gadarnhaol at weithgareddau newydd. Darperir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gynnig mewnbwn i'r hyn maent am ei ddysgu, sy'n ennyn a chynnal eu diddordebau'n llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n aeddfed ar gyfraniadau eraill ac yn dysgu parchu eu barn. Mae'r disgyblion hynaf yn arddel yr ymddygiadau hyn ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn effeithiol. Maent yn parchu barn ei gilydd yn gwrtais ac yn deall pwysigrwydd goddefgarwch, sy'n hyrwyddo ethos caredig yr ysgol yn llwyddiannus.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd derbyn ac ymateb i gefnogaeth ac adborth gan eu hathrawon a'u cyfoedion. Erbyn brig yr ysgol, mae'r berthynas weithio hon yn aeddfedu ac mae'r disgyblion yn deall gwerth a phwrpas adborth wrth iddynt ddatblygu eu gwaith a rhoi o'u gorau.

Mae'r disgyblion yn cynrychioli eu cyfoedion ar wahanol gynghorau yn bwrpasol, sy'n cynnwys y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn gwerthfawrogi'r berthynas agos sydd ganddynt â staff ac yn mwynhau cydweithio wrth wasanaethu ar y grwpiau hyn. Mae aelodau'r Cewri Cymru yn datblygu gorsaf radio yr ysgol sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion gynhyrchu a chyflwyno eitemau sy'n ymwneud â digwyddiadau Cymreig a cherddoriaeth Gymraeg. Mae hyn yn ysbrydoli'r disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu eraill. Mae'r disgyblion hynaf yn ystyried a thrafod hawliau plant yn ystyrlon. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac yn ystyriol o effaith dyn ar yr amgylchedd. Mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Maent yn deall a dilyn rheolau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu profiadau dysgu eang a chyfoethog gyda dyfnder sy'n datblygu diddordebau a medrau disgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff wedi cyfranogi'n agos â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i ffurfio gweledigaeth a chynllunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn cael eu datblygu'n gyson mewn gweithgareddau diddorol, wrth ddysgu am gopaon uchaf Ceredigion a thaith i ardal enwog Ponartfynach.

Mae staff yn cydweithio'n strategol ar draws y tair ysgol i wreiddio'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae athrawon yr ysgol yn cyflwyno sbardun, cwestiwn ymholi a phenllanw ar gyfer y disgyblion. Maent yn ystyried y themâu'n ofalus i gyflwyno cwricwlwm diddorol ac eang. Mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth addas a dangos cynnydd yn eu medrau llafar, creadigol a digidol mewn gweithgareddau ysgogol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i ddatblygu eu medrau mathemategol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn datblygu cystal â'u medrau darllen Saesneg.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o gyfleoedd bwriadus i arbrofi â gwneud marciau yn annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau llythrennedd a rhifedd sy'n herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae gan staff berthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion ac maent yn darparu cyfuniad o ddulliau i arwain y dysgu a darparu cyfleoedd iddynt ddysgu'n annibynnol. Maent yn annog parch a chwrteisi disgyblion yn llwyddiannus sy'n cyfrannu'n dda at wireddu gweledigaeth ac ethos yr ysgol. Mae staff yn arddel iaith raenus yn effeithiol ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg llafar yn gyson. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith briodol ar eu medrau llafar. Mae'r cynorthwyydd yn cefnogi'r dysgu yn y dosbarthiadau yn effeithiol, gan gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr yn fedrus. Mae athrawon yn holi cwestiynau ymestynnol i ddisgyblion yn effeithiol er mwyn dyfnhau'r dysgu a'u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae athrawon yn cyflwyno profiadau ysgogol i'r disgyblion mewn sesiynau dysgu. Maent yn rhannu ac esbonio nod gweithgareddau yn synhwyrol ac yn cynnwys disgyblion yn y drefn o gytuno ar y camau iddynt eu hystyried i gwblhau gwaith hyd orau eu gallu. Mae adborth llafar ystyrlon gan staff yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda maent yn cyflawni a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella darnau o waith penodol. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, ac i adnabod a gweithredu ar beth i'w wneud i symud eu dysgu ymlaen, a sut. Mae staff yn darparu adroddiadau blynyddol perthnasol I rieni am gynnydd, cyflawniadau ac agweddau dysgu eu plant.

Mae staff yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion ar ddechrau'r flwyddyn yn bwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae staff yn adnabod cynnydd a datblygiad unigolion yn fanwl, gan gynnwys grwpiau penodol o

ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae staff yn gwahodd ymwelwyr amrywiol i'r ysgol i gyfoethogi a datblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithdai gyda chogydd lleol ac yn cynnal gweithgareddau radio gyda chyflwynydd radio enwog i ddatblygu medrau llafar a chodi hyder y disgyblion hynaf. Mae staff yn manteisio ar arbenigedd trigolion lleol i sbarduno'r dysgu yn dda, sy'n cynnwys cydweithio'n agos â'r gymuned a'r rhieni i gynllunio a chreu cynnyrch i'w gwerthu yn y siop leol. Mae'r disgyblion hynaf yn elwa o fynychu gwersylloedd preswyl yr Urdd sy'n datblygu eu medrau corfforol a lles, eu gallu i weithio fel aelod o dîm a datblygu eu balchder at fod yn Gymry.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob disgybl yn effeithiol. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn fwriadus. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad da a chwrteisi naturiol bron bob un o'r disgyblion.

Mae gan y pennaeth a'r holl staff adnabyddiaeth drylwyr o bob plentyn. Maent yn defnyddio dulliau manwl a hygyrch i adnabod cynnydd yr holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ADY. Mae hyn yn cefnogi staff i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn unol â'u mannau cychwyn unigol a'u targedau dysgu.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cynorthwyydd sy'n gyfrifol am raglenni cymorth yn cefnogi disgyblion yn gydwybodol, ac maent yn frwdfrydig dros eu cyfrifoldebau. Maent yn darparu gweithdrefnau pwrpasol sy'n sicrhau adnabyddiaeth dda o bob disgybl sydd ar y gofrestr ADY a'r rhai hynny sy'n peri pryder. Er enghraifft, maent yn adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol o oedran cynnar. Mae gan y staff gyswllt cynhyrchiol ag ystod o bartneriaethau allanol i gefnogi'r ddarpariaeth ADY. Mae'r rhain yn cynnwys y seicolegydd addysg ac aelodau tîm ymddygiad yr awdurdod sy'n rhan allweddol o ddarparu cefnogaeth addas i ddisgyblion penodol.

Mae staff yn darparu sesiynau effeithiol i ddiwallu anghenion lles disgyblion. Mae'r ddarpariaeth i hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac yn cael effaith gyson ar eu lles a'u datblygiad addysgol. Mae'r pwyslais ar ofalu am les corfforol, meddyliol ac emosiynol yn flaenoriaeth mewn sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn trafod yr agweddau hyn yn hyderus, gan gynnwys rhannu eu teimladau a'u gofidiau gydag eraill. Darperir cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddathlu bod pawb yn wahanol a bod angen ystyried pwysigrwydd hyn yn y gymuned ehangach.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol, ac yn eu cefnogi i ddangos empathi at eraill. Er enghraifft, maent yn cynnal gwasanaeth diolchgarwch gyda'r gymuned yn yr eglwys leol. Darperir sesiynau cydaddoli addas a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar foesau a sut i ofalu am ei gilydd. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac

archwilio credoau yn fuddiol, er enghraifft wrth ddysgu am hanes Moses ac ymchwilio i draddodiadau gŵyl Diwali.

Mae staff yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion trwy ddarparu profiadau dysgu am leoliadau arwyddocaol lleol fel hanes adeiladu argae Nant y Moch a'r effaith ar y gymuned. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall natur gynhenid eu hardal leol o gymharu â byw mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau i feithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn sioeau a chyngherddau yn y gymuned mewn partneriaeth gynhyrchiol â dwy ysgol gyfagos ac yn eisteddfodau'r Urdd. Mae cyswllt clòs â'r gymuned yn elfen gref o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fonitro cyfraddau prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac yn cydweithio'n agos â theuluoedd a'r swyddog lles, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae cyfradd presenoldeb yr ysgol ar gynnydd eleni. Mae'r pennaeth a'r staff yn deall eu cyfrifoldebau wrth ddiogelu disgyblion ac mae'r diwylliant o ofalu am y disgyblion yn fwriadus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ethos gofalgar a chefnogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd ac yn datblygu i fod yn aelodau cydwybodol o gymuned yr ysgol. Maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Dysg, Dawn, Daioni' yn llwyddiannus, ac yn meithrin gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u diwylliant.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu tîm o staff gweithgar a chefnogol, ac i hyrwyddo lles staff. Maent yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol yn dda sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cydweithio effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau'r ysgol. Mae'r cydweithio sy'n bodoli ar draws y tair ysgol yn dylanwadu'n gadarnhaol ar addysg disgyblion.

Mae gweithdrefnau arweinyddiaeth, sydd wedi'u sefydlu'n hynod effeithiol ar draws y tair ysgol dan ofal medrus y pennaeth, yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yr ysgol, yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu ehangach. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. Mae gan yr athrawon gyfrifoldeb am feysydd dysgu a phrofiad penodol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cynorthwyydd yn aelod allweddol o dîm yr ysgol sy'n cyfrannu'n fwriadus at wella cynnydd yn nysgu'r disgyblion, eu lles a'u medrau cymdeithasol. Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn fwriadus sy'n cyfrannu at ddatblygu balchder disgyblion at eu hiaith a'u treftadaeth yn llwyddiannus.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella wedi'u seilio ar amrediad pwrpasol o dystiolaeth uniongyrchol, ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau effeithiol wedi'u sefydlu i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella ac

adnabod camau i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o gynnydd o ddeilliannau'r disgyblion, a chyfleoedd synhwyrol i graffu ar waith ac arsylwi ar sesiynau dysgu. Mae cyfleoedd i weithio ar y cyd â staff y ddwy ysgol gyfagos yn cryfhau'r trefniadau hyn. O ganlyniad, mae'r pennaeth a staff yn adnabod eu hysgol yn drylwyr ac yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gwelliannau'n fwriadus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn derbyn ac ystyried gwybodaeth ddefnyddiol am effaith gweithdrefnau gwella'r ysgol ar y ddarpariaeth ac am gynnydd a lles disgyblion. Mae cyfleoedd i aelodau'r corff gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso, gan gynnwys ymweld â'r dosbarthiadau, trafod gyda disgyblion a chraffu ar eu gwaith. Yn gyffredinol, maent yn cwestiynu'r ysgol ynghylch materion addas, gan gynnwys dulliau addysgu amrywiol. Mae hyn yn gymorth i arweinwyr ystyried y camau clir i wella yn ddeallus. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r llywodraethwyr yn ymfalchïo yn y bartneriaeth weithredol sy'n bodoli ar draws tair ysgol yr ardal, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yr ysgol, ac sy'n darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr iddynt.

Mae gwariant yn cysylltu'n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn cynllunio gwariant y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol, sy'n cynnwys darparu rhaglenni cefnogi wedi'u teilwra at anghenion dysgu ac emosiynol unigolion.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant pwrpasol am addysgu gwyddoniaeth a thechnoleg, a hyfforddiant am agweddau penodol o ddulliau cefnogi disgyblion ag ADY. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â'r ysgolion uwchradd lleol ac ysgolion y clwstwr, sy'n cynnwys darparu cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion o ysgolion bach fynychu diwrnodau trosglwyddo. Mae hyn yn codi hyder disgyblion wrth symud i'r ysgol uwchradd.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ac i rannu cyflawniadau a llwyddiannau eu plant. Mae'r rhieni yn falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i gymuned wledig ardal Ponterwyd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   16/05/2024